**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Tonia Antoniazzi AS
Cadeirydd Grŵp Seneddol Hollbleidiol San Steffan ar Ieithoedd Modern

Y Farwnes Jean Coussins
Cyd-gadeirydd Grŵp Seneddol Hollbleidiol San Steffan ar Ieithoedd Modern

1 Mai 2025

Annwyl Tonia a Jean,

**Y bwriad i gau adrannau ieithoedd a diwylliannau ym Mhrifysgol Caerdydd**

Diolch i chi am eich llythyr ar 3 Ebrill ynghylch y bwriad i gau cyrsiau gradd ieithoedd a diwylliannau ym Mhrifysgol Caerdydd.

Er ein bod yn nodi eich pryderon, nid cyfrifoldeb pwyllgorau'r Senedd yw cynnal asesiadau effaith economaidd.

Efallai eich bod yn ymwybodol bod Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Phwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd yn cynnal ymchwiliadau sy'n berthnasol i'r materion rydych wedi'u codi. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad byr i faterion sy'n wynebu'r sector addysg uwch, ac mae disgwyl iddo glywed tystiolaeth gan Brifysgol Caerdydd ym mis Mehefin.

Ar hyn o bryd rydym yn cadw golwg ar y sefyllfa o ran Addysg Uwch yng Nghymru ac yn bwriadu dilyn gwaith y Pwyllgorau hyn, a byddwn yn mynd ar drywydd materion yn ôl yr angen ynghylch unrhyw bryderon a godwyd am effaith economaidd bosibl y cau arfaethedig.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Buffy Williams AS a Delyth Jewell AS yn eu rolau fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Cofion gorau,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

Copi at:

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol